Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/KW/0776/18

Lynne Neagle AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2018

Annwyl Lynne,

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi heddiw fy mod wedi lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drafft ('y Cod ADY'). Bydd y Cod ADY statudol terfynol, ynghyd â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar ddechrau'r flwyddyn, yn rhan hanfodol o'n rhaglen i drawsnewid y system ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn hollbwysig i'n cenhadaeth genedlaethol ar gyfer addysg yng Nghymru.

Bydd yr ymgynghoriad 15 wythnos yn ceisio barn partneriaid cyflawni, teuluoedd a phartïon eraill â diddordeb er mwyn helpu i lywio'r ddogfen bwysig hon a sicrhau dealltwriaeth glir o'r hawliau a'r dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r broses ar gyfer gwneud y Cod ADY, ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori â rhanddeiliaid penodol ar fersiwn ddrafft fel rhan o'r broses honno. Mae'r Pwyllgor yn un o'r ymgyngoreion statudol a restrir yn y Ddeddf o dan adran 5(1). Mae hyn yn cydnabod y budd sylweddol sydd gennych mewn sicrhau bod y Cod ADY yn adlewyrchu'r system newydd mewn ffordd sy'n glir i'r rheini fydd yn gyfrifol am ei weithredu, a bod y canllawiau pellach sydd ynddo a'r gofynion gorfodol a orfodir ganddo hefyd yn glir ac yn briodol.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn gwahodd sylwadau ar reoliadau drafft sy'n gysylltiedig â Thribiwnlys Addysgol Cymru, rheoliadau drafft ynghylch Cydlynwyr Anghenion Addysgol Ychwanegol, a'r bwriad polisi ar gyfer nifer o reoliadau arfaethedig eraill yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, hoffem gael sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i'r cod ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Cod Ymarfer Rhan 6 - Plant sy'n Derbyn Gofal a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Phlant sy'n Cael eu Lletya), a'r bwriad polisi ar gyfer rheoliadau arfaethedig yn ymwneud ag addysg plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi eich barn er mwyn i ni allu sicrhau bod ein cynigion yn hawdd eu rheoli ac yn deg i'r rheini y bydd rhaid iddynt gyflawni swyddogaethau o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd, a hefyd yn gyfiawn a theg i ddysgwyr ag ADY y mae arnynt angen y gefnogaeth gywir i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws Cymru er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid ddysgu mwy am y Cod drafft a'r cynigion eraill rydym yn ymgynghori arnynt. Bydd fy swyddogion yn rhannu manylion y digwyddiadau hyn â chi maes o law.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd fy swyddogion a minnau yn ystyried pa ddiwygiadau i'w gwneud i'r Cod drafft yn sgil y sylwadau a gafwyd. Bwriedir gosod y Cod ADY a'r rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd 2019 gyda golwg ar gychwyn darpariaethau'r Ddeddf a'r rheoliadau o fis Medi 2020, gyda chyfnod gweithredu tair blynedd cyn eu bod ar waith yn llawn.

Ni fyddai'r gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma i ddiwygio'r system ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY wedi bod yn bosibl heb gymorth uniongyrchol gan ein rhanddeiliaid. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch ymdrechion i'n helpu i gyrraedd y cam arwyddocaol hwn yn y broses. Fe'ch gwahoddaf i ystyried y drafft hwn o'r Cod ADY ac ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 22 Mawrth 2019. Gallwch wneud hynny drwy ddilyn y ddolen ganlynol i'r dudalen ymgynghoriadau ar ein gwefan https://beta.llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education